| | | | |
|---|---|---|---|
| 0 barn sicrwydd uchel: | Amh. | 1 barn sicrwydd **gyfyngedig:** | Rheoli Asedau Offer |
| 2 farn sicrwydd sylweddol: | Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol<br>Cynllunio Busnes | 0 barn **dim** sicrwydd: | Amh. |
| 0 barn sicrwydd cymedrol: | Amh. | 3 adolygiad heb sgôr sicrwydd | Rheolaethau Craidd Rheoli Risg<br>Y Fenter Twyll Genedlaethol<br>Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb |

### C) Camau Dilynol

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi gwneud **cynnydd da** o ran gweithredu argymhellion. Byddwn yn parhau i olrhain a mynd ar drywydd y camau gweithredu sy'n weddill.

### D) Themâu

Trwy gyflwyno eich cynllun archwilio mewnol, fe wnaethom nodi'r meysydd thematig canlynol:

- Mae'r cynllun cymeradwy o waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 wedi canolbwyntio ar risgiau allweddol i'r Gwasanaeth, er enghraifft Rheoli Asedau Offer a Chynllunio Busnes. Mae'r Gwasanaeth wedi cyfeirio ein gwaith at feysydd pryder hysbys.
- Mae argymhellion archwilio yn ystod y flwyddyn wedi tynnu sylw at themâu mewn perthynas â dyluniad rheoli ac effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau a chydymffurfiaeth â pholisi a gweithdrefnau sydd ar waith.

### E) Trydydd Parti/Sicrwydd Arall

Er nad ydym wedi dibynnu'n uniongyrchol ar ddarparwyr sicrwydd eraill. Ar adeg cyhoeddi'r farn hon nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â sicrwydd trydydd parti.

| |
|---|
| Defnydd effeithiol o archwilio mewnol gan gynnwys cyfathrebu yn ystod y flwyddyn, a newidiadau i amseru'r cynllun archwilio mewn perthynas â'r adolygiad Cynllunio Busnes. |
| Er mwyn rhoi gwybod i'n cleientiaid am lywodraethiant sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau polisi ehangach, fe wnaethom gynnal 9 digwyddiad yn 25/26 fel rhan o'n Cydweithrediad Dosbarth Meistr Gogledd-orllewin Lloegr. Roedd crynodeb o'r digwyddiad yn cyd-fynd â phob digwyddiad a gyhoeddwyd ar ein gwefan. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Mewnwelediad MIAA ar Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Pwyllgor Archwilio Awdurdod Lleol. |
| Cyfranogiad a chynrychiolaeth barhaus ar Gyrff Cenedlaethol gan gynnwys y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA) a CIPFA gan ein galluogi i fod yn rhagweithiol wrth rannu arfer gorau, meincnodi ehangach a darparu mewnwelediadau cynnar ar faterion cenedlaethol. |

